# Deall ac Atal Trais gyda Phlant a Phobl Ifanc

**Cyfres Seminarau Gwanwyn/ Haf 2023**

**Dydd Mawrth 02 Mai 2023, 14:00-15:30**

## CWESTIYNAU CYFFREDIN

**C: Pe gallech wneud un peth i atal trais neu leihau trais fwyaf, beth fyddai?**

A: Nid oes ateb hawdd oherwydd yr hyn sydd ei angen mewn gwirionedd – a oedd yn thema drwy gydol cyflwyniadau'r seminar – yw ein bod angen dod â'r holl ffrydiau gwaith ynghyd i wneud cymunedau sy'n gweithio. Dod â'r holl bethau llwyddiannus a gwych sy'n digwydd i un lle fel bod yna fframwaith sy'n gallu cyflawni.

Mae'n rhaid cael dull system gyfan sy'n gydlynol a chynhwysfawr. Fel gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr mae'n bwysig gwybod beth yw anghenion lleol a safbwyntiau'r rheiny'r ydych yn gweithio iddynt a chyda hwy, er mwyn sicrhau bod partneriaid yn darparu gwasanaethau cynaliadwy sydd eu hangen / eu heisiau.

Yn ogystal, mae'n rhaid cael dull gweithredu hirdymor. Fel yr amlygwyd yn ystod y cyflwyniadau, nid yw mynd i'r afael ag atal a lleihau trais yn ymwneud â chyllid yn unig; cefnogi siwrnai plentyn sy'n bwysig, ac mae hynny'n cymryd amser ac ymroddiad. Mae'n rhaid i'r system ystyried siwrnai gyfan plentyn i fod yn oedolyn, a bydd adegau ar hyd y siwrnai hon lle bydd pob gwasanaeth gwahanol yn cael y cyfle i ymyrryd. Yn ogystal, mae angen ystyried tlodi, tai a chyflogaeth, sy'n ffactorau sylfaenol sy'n cyfrannu drwy gydol bywyd y plentyn hwnnw.

**C: Sut mae disgwyliadau pobl ifanc yn cael eu rheoli, yn enwedig os ydynt yn gofyn am restr hir o weithgareddau / darpariaethau gwasanaeth, ac ati?**

A: Mae'r ystod o faterion y gweithir arnynt yn rhoi'r cyfle i ganolbwyntio ar fwy nag un maes a / neu un alwad yn unig, e.e. perthnasoedd gyda'r Heddlu, cludiant am ddim ar fws i'r ysgol (i geisio annog presenoldeb, a hefyd i sicrhau eu bod yn cyrraedd yn ddiogel). Dywedwyd nad yw'r hyfforddiant a'r broses yn ymwneud â gweithgareddau'n unig, y siwrnai sy'n bwysig; eu cynorthwyo i ddeall yr hyn sydd ei angen i wella pethau a sut ellir cyflwyno'u safbwyntiau i ddylanwadu ar benderfyniadau a fydd o fudd i'w bywydau hwy eu hunain a phobl ifanc eraill.

Dywedwyd mai'r allwedd yw bod yn bragmatig, a'u cynorthwyo i ddeall efallai y bydd angen cyfaddawdu; ond mae'r nod o fywyd heb drais yn aros yr un fath. Eglurwyd mai gwaith y trefnydd yw cynorthwyo'r unigolyn ifanc i ddeall beth yw canlyniad llwyddiannus pan fydd yn cyfarfod â gwahanol bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Drwy ymgysylltiad yr Uned Atal Trais â phlant a phobl ifanc, nid oeddynt wedi cael rhestr o alwadau ond yr oeddynt yn cydnabod pwysigrwydd datblygu perthnasoedd a gweithio gyda hwy ar yr atebion. Canfuwyd bod gwneud hyn yn galluogi'r bobl ifanc i ddeall y cyfyngiadau, ond gan hefyd eu cynorthwyo i deimlo'u bod yn cael eu gweld. Cydnabuwyd bod gan newidiadau gweddol fach – er enghraifft, grwpiau ieuenctid lleol yn agor ar wahanol amseroedd – gyfleoedd ariannol cymharol isel.

**C: Beth sy'n digwydd i fynd i'r afael â throseddu a thrais sy'n pontio'r cenedlaethau gyda phobl ifanc?**

A: Rhoddir sylw i batrymau trais sy'n pontio'r cenedlaethau mewn nifer o feysydd yn y Fframwaith a chydnabuwyd yn gyfan gwbl bod mwy nag un ateb.

Nodwyd rhai o'r meysydd allweddol yn y Fframwaith lle rhoddir sylw i hyn, gan gynnwys o fewn cefnogaeth i deuluoedd, y blynyddoedd cynnar, magu plant a gofalwyr, a hefyd cefnogaeth i blant a phobl ifanc a oedd yn dioddef cam-drin domestig. Cydnabuwyd bod cefnogaeth gyfannol yn bwysig iawn wrth geisio mynd i'r afael â chysylltiadau a phatrymau trais sy'n pontio'r cenedlaethau. Mae meysydd eraill yn cynnwys cyflogaeth a hyfforddiant, ysgolion ac addysg, a hefyd mae systemau'n newid mesurau lefel, fel lleihau tlodi, anghydraddoldeb a gwahaniaethu. Yn fyr, nid oes un ateb hawdd.

Mae angen dull gweithredu cyfannol. Mae'n hanfodol bwysig deall y cydgysylltiadau o ran sut mae gwasanaethau'n clymu â'i gilydd ac yn cynnig darpariaeth gwasanaeth wedi ei lywio gan drawma.

Amlygwyd bod llawer o waith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd rhwng Llywodraeth Cymru, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF a thirlun partneriaeth cyfiawnder troseddol, yn canolbwyntio ar wella cysylltiadau teuluol pobl sydd wedi eu carcharu o fewn y system gyfiawnder.

**C: A oes map "mannau prysur" sy'n nodi ardaloedd lle mae'r angen mwyaf yn dilyn o'r angen i ystyried materion ledled adrannau'r llywodraeth (h.y. yr economi, iechyd, tai, gofal cymdeithasol, ac ati)? A yw'n cysylltu â'r nodau ac argymhellion ar gyfer Strategaeth Gwaith Ieuenctid Cymru?**

Mae'r cwestiynau hyn yn adleisio sgyrsiau sy'n digwydd wrth ddatblygu Fframwaith Atal Trais Llywodraeth Cymru. Yr oedd gwaith yr Uned Atal Trais yn canolbwyntio ar y gofod trais difrifol, tra bydd Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar Lasbrint Cyfiawnder Ieuenctid a'r gwaith a'r ddysg benodol sy'n bwydo i'r gofod hwnnw. Gyda nod o geisio deall sut y gellir ei ailadrodd ledled y system yn ehangach i gleientiaid, fel bod gwaith atal yn cael ei wreiddio ym mhob peth yr ydym yn ei wneud.

Cydnabuwyd bod crynswth y gwasanaethau sy'n ymwneud â hyn yn eang, a'r nod yw ceisio deall beth sydd ar gael mewn gwahanol rannau o Gymru, mewn fformat "mannau prysur". Fodd bynnag, ar hyn o bryd canolbwyntir ar geisio deall sut y dylai pethau edrych a pha ddarpariaeth ddylai fod yn ei lle ym mhob gofod, cyn i ni wedyn weithio gyda phartneriaid i ddeall beth sydd yno.

Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wirioneddol eisiau cydweithio gyda phartneriaid i ddatblygu safbwynt cyffredinol o'r hyn sydd ar gael, yr hyn ddylai fod ar gael, a

datblygu'r sgyrsiau hynny a ddylai fod yn digwydd mewn gofodau fel gwaith ieuenctid; lleferydd, iaith a chyfathrebu; iechyd meddwl; tai a chamddefnyddio sylweddau, ac ati, er mwyn sicrhau bod ymdeimlad gwirioneddol aliniedig ar bob lefel ynglŷn â sut i symud ymlaen. Cydnabuwyd bod hyn yn waith mawr sy'n mynd i gymryd amser, ond y mae hyder y gellir ei wneud.

Amlygwyd yn y bar sgwrsio bod angen rhoi ystyriaeth i sut mae'r fframweithiau'n cydgysylltu er mwyn canfod bylchau. Cyfeiriad penodol at Strategaeth Gwaith Ieuenctid, Ysgolion Bro, Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid, sy'n darparu agwedd gadarnhaol ar werth gweithio amlasiantaeth a dealltwriaeth wirioneddol ynglŷn â sut i atal plant a phobl ifanc rhag syrthio i'r bylchau.

**C: A oes unrhyw gymorth ar gael i bobl gael mynediad at wybodaeth a thystiolaeth sylfaenol fel y gallant gael dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn eu hardal neu ledled Cymru?**

Mae'r Uned Atal Trais wedi lansio adnodd yn ddiweddar o'r enw Porth Atal Trais Cymru. Er bod y Porth yn dal i gael ei ddatblygu, y mae wedi ei lansio a gellir ei ddefnyddio. Mae'r Porth yn ganolbwynt rhannu data ar gyfer ffynonellau data atal trais ledled Cymru, gan gynnwys data gan yr heddlu, gwasanaeth ambiwlans, adrannau damweiniau ac achosion brys (data derbyniadau ar gyfer trais gydag anaf).

Y syniad yw y bydd y Porth yn eich galluogi i ganfod yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf yng Nghymru o ran trais. Sylwer, er bod y Porth yn cynnwys yr holl ddata ar gyfer de Cymru, mae'r cytundebau rhannu yng ngogledd Cymru yn dal i gael eu cwblhau.

## DOLENNI DEFNYDDIOL

- Gwefan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru – Cymunedau Mwy Diogel i Gymru – Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- Cofrestrwch i dderbyn BRIFF – newyddlen Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru – bob pythefnos drwy e-bostio safercommunities@wlga.gov.uk
- Gwefan Uned Atal Trais Cymru – Uned Atal Trais (violencepreventionwales.co.uk/cy/)
- Gwefan Cymru Heb Drais – Cymru Heb Drais
- Ffilm Cymru Heb Drais – Cymru Heb Drais – YouTube
- Porth Atal Trais Cymru – Mewngofnodi – TIIG (ljmu.ac.uk) *(cofrestrwch gyda chyfeiriad e-bost sefydliad)*